

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru: Pontio i Oedolaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anabledd Dysgu	
Cyswllt	Nia Evans, Ymgynghorydd Polisi, Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Abertawe SA7 9FS 01792 765620 nia.evans@complantcymru.org.uk
Prosiect	Prosiect ymchwil i amlygu problemau wrth i bobl ifanc ag anabledd dysgu bontio i oedolaeth.
Amserlen	Hydref 2017 – Mawrth 2018
Uchafswm y ffi ar gyfer y gwaith ymgynghorol	£20,000
Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau	11 Hydref 2017 gyda chyfweliadau/cyflwyno cynigion ar 19 Hydref 2017
Comisiynydd Plant Cymru	
<p>Mae Comisiynydd Plant Cymru a'i thîm yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.</p> <p>Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru ac mae hi a'i thîm yn gweithio i gyflawni newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru trwy:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod am hawliau plant• Gwranddo ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw• Cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu mynd â'r problemau at neb arall• Dylanwadu ar y llywodraeth a chyrrff eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc• Codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru. <p>Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gweithio dros bob plentyn a pherson yng Nghymru sydd o dan 18, neu o dan 25 oed, os ydyn nhw wedi bod mewn gofal.</p>	
Briff y Prosiect	
Cefndir:	Yn ein Cynllun Strategol tair blynedd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, mae'r Comisiynydd yn datgan bod 'Pontio i oedolaeth ar gyfer yr holl bobl ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus' yn flaenoriaeth. Nawr, rydym yn

	<p>chwilio am gymorth contractwr allanol i'n helpu i gyflawni'r nod hwn a llywio'n gwaith o hyn ymlaen.</p>
Nod:	<p>Nod y prosiect ymchwil yw amlygu problemau wrth i bobl ifanc anabl bontio i oedolaeth. Yn y prosiect hwn, bydd y ffocws ar bobl ifanc ag anabledd dysgu a bydd gan rai ohonyn nhw anabledau ychwanegol hefyd. Mae hyn yn debygol o gynnwys nodi eu hanghenion yn ystod y cyfnod hwn, cael cipolwg ar argaeledd gwasanaethau cymorth cadarnhaol ar draws Cymru ac amlygu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.</p>
Bydd disgwyl i'r ymgynghorydd allanol:	<p>Mae arnom angen unigolyn neu dîm i gyflawni prosiect ymchwil bach i gefnogi gwaith ehangach Comisiynydd Plant Cymru ar bontio i oedolaeth;</p> <ul style="list-style-type: none">• Archwilio'r cwestiynau allweddol canlynol: Beth yw anghenion pobl ifanc ag anabledd dysgu sy'n nesáu at oedolaeth, yn ôl pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr (gallai'r anghenion gynnwys anghenion cymdeithasol, addysg, hyfforddiant, tai, iechyd); O safbwyntiau pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, a oes gwasanaethau cymorth cadarnhaol ar gael ar draws Cymru?; Pa fylchau mae'r cyfranogwyr yn eu hamlygu yn y ddarpariaeth?; Gall y cynigwyr ychwanegu cwestiynau ymchwil perthnasol eraill.• Cynnal gwaith maes gyda phobl ifanc, rhieni a gofalwyr yng Nghymru;• Amlinellu dulliau ymchwil addas sy'n debygol o gynnwys dulliau ansoddol ac arolwg yn bennaf;• Galluogi dau gyfle i gyfnewid ymarfer gyda gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn;• Cydweithio â chyswllt allweddol Comisiynydd Plant Cymru ar adegau gwahanol yn ystod datblygiadau;• Cyflwyno adroddiad interim yn seiliedig ar ddadansoddiad o ganfyddiadau, yn cynnwys unrhyw argymhellion angenrheidiol i Gomisiynydd Plant Cymru eu hystyried. Gallai hwn fod ar ffurf cyflwyniad i dîm prosiect Comisiynydd Plant Cymru;• Llunio adroddiad allanol i gofnodi gwaith a wnaed a chanfyddiadau, gan gynnwys amlygu unrhyw waith posibl i Gomisiynydd Plant Cymru ei wneud (2018-2019) neu, yn wir, y rhesymau dros beidio â'i wneud; a• Chydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg, deddfwriaeth cydraddoldeb, cyfrinachedd, diogelu data a diogelwch gwybodaeth gydol y prosiect. Hefyd, dylai cynigwyr amlinellu sut byddant yn cydymffurfio â moeseg ymchwil, gan gynnwys caniatâd a diogelu. (Gall staff Comisiynydd Plant Cymru fod ar gael i gynorthwyo â gwaith maes yn y Gymraeg, fel bo'r angen).

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
 Sally Holland

Amserlen a ragwelir:	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal y gwaith maes rhwng Tachwedd 2017 ac Ionawr 2018; • Cyflwyno'r Adroddiad Interim erbyn Diwedd Ionawr 2018; a • Chyflwyno'r Adroddiad Llawn (tua 10-15,000 o eiriau) erbyn Diwedd Chwefror 2018 fel y gall Comisiynydd Plant Cymru ei gyhoeddi erbyn Diwedd Mawrth 2018.
Dyddiad cychwyn arfaethedig:	30 Hydref 2017 neu cyn hynny.
Dyddiad cwblhau gofynnol:	28 Mawrth 2017
Gofynion Polisi Iaith Gymraeg Comisiynydd Plant Cymru:	<p>Mae'r ddogfen dendr hon yn cydymffurfio â'n Polisi Iaith Gymraeg a gellir cyflwyno gwahoddiadau i dendro am y contract hwn yn y Gymraeg; ni fydd tendr a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynwyd yn y Saesneg.</p> <p>Dylai'r tîm llwyddiannus ddisgwyl cynhyrchu dogfennau ymchwil, fel arolygon a gwahoddiadau i gymryd rhan, yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Comisiynydd Plant Cymru fydd yn talu cost cyfieithu'r adroddiad terfynol.</p>
Gofynion Cydraddoldeb Comisiynydd Plant Cymru:	<p>Mae'r ddogfen dendr hon yn cydymffurfio â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p> <p>Mae fy swyddfa yn ceisio hyrwyddo cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar ran plant a phobl ifanc sydd â nodwedd warchoddedig. Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn trwy geisio deall profiadau a barn plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchoddedig a datblygu a hyrwyddo adnoddau, dealltwriaeth a gwybodaeth. Rydym yn ceisio meithrin perthynas dda rhwng y rhai sydd â nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd heb nodwedd warchoddedig.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn amlygu problemau sydd gan grŵp o bobl ifanc â nodwedd warchoddedig, sy'n cael eu gyrru i'r cyrion yn ddiogel, a bydd yn ceisio amlygu rôl Comisiynydd Plant Cymru wrth gyfrannu at unrhyw gynnydd arwyddocaol y mae ei angen i sicrhau gwelliannau hirdymor i'r bobl ifanc hyn.</p> <p>Dylai cynigwyr nodi sut byddant yn ystyried materion cydraddoldeb yn eu cynllun ymchwil.</p>
Deilliannau (gan gynnwys allbwn) i'w cyflawni gan yr	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno adroddiad mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o ganfyddiadau, a fydd yn cynnwys unrhyw argymhellion angenrheidiol i Gomisiynydd Plant Cymru eu hystyried;

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

<p>ymgyngorydd allanol:</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cynhyrchu adroddiad allanol, o fewn amserlen gytunedig, i gofnodi gwaith a wnaed a chanfyddiadau;• Amlygu unrhyw waith posibl i Gomisiynydd Plant Cymru ei wneud yn 2018-2019 neu, yn wir, y rhesymau dros beidio â'i wneud; a• Bydd y gwaith hwn yn ceisio amlygu rôl Comisiynydd Plant Cymru wrth gyfrannu at unrhyw gynnydd arwyddocaol y mae ei angen i sicrhau gwelliannau hirdymor i bobl ifanc anabl.
<p>Gwneud cais:</p>	<p>I wneud cais, anfonwch CV cyfredol a llythyr esboniadol (2 dudalen ar y mwyaf) a chynnig ymchwil (4 tudalen ar y mwyaf). Yn eich llythyr esboniadol, dylech amlygu pa sgiliau a gwybodaeth berthnasol y byddwch yn eu cyfrannu a sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni. Dylai'r cynnig gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyflwyniad a Chefndir;• Nodau ymchwil a chwestiynau ymchwil;• Methodoleg ymchwil arfaethedig, gan gynnwys maint y sampl a recriwtio'r sampl, dulliau casglu data, dadansoddiad ac amserlenni;• Ystyriaethau moesegol;• Sut byddwch yn cadw at y Ddeddf Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg;• Nodi risgiau allweddol a sut byddant yn cael eu lliniaru; a• Dadansoddiad o gostau. <p>DS: bydd tîm prosiect Comisiynydd Plant Cymru yn gallu'ch helpu i nodi pobl a allai gymryd rhan yn yr ymchwil, ond dylech hefyd ddisgwyl arwain ar gynllunio a recriwtio sampl ymchwil addas.</p> <p>Bydd angen enwau a manylion cyswllt dau ganolwr ar bob cais. Gallwch atodi neu ddarparu dolenni i enghreifftiau o adroddiadau blaenorol a lunioch i ddangos tystiolaeth o'ch addasrwydd.</p> <p>Oherwydd bydd angen gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, bydd disgwyl i ymgeiswyr gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Byddwn yn cyfweld ag ymgeiswyr ar y rhestr fer ar 19 Hydref 2017.</p>